

AAT Certificate in Accounting Level 2



Yn gwyno

Bydd y cwrs hwn yn rhoi sgiliau cyllid a chyfrifeg ymarferol sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol i chi a all agor drysau mewn sawl diwydiant ledled y byd. Mae'n ddelfrydol os ydych am weithio mewn rôl cyfrifyddu, er enghraifft gydag awdurdodau lleol, yswiriant, banciau neu bractis cyfrifeg, ac mae'n cynnig llwybr rhagorol i ddod yn Gyfrifydd Siartredig.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...swydd fel gweinyddwr cyfrifon, cynorthwydd cyfrifon, clerc cyfrifon taladwy, clerc llyfrau cyfrifon pryniadau/gwerthiannau, technegydd cyfrifeg dan hyfforddiant neu gynorthwydd cyllid dan hyfforddiant

...gyrfa mewn cyfrifeg neu gyllid

...unrhyw un sydd eisiau mynd ymlaen i astudiaethau lefel gradd mewn Busnes

Cynnwys y cwrs



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Bydd disgwyl ichi ymrwymo'n llawn i fynychu yn ogystal â pharchu eraill, bod yn frwd am y pwnc a bod yn hunan-gymhellol. Yn ogystal â mynychu coleg, bydd disgwyl ichi ymgymryd â 3 i 4 awr o astudiaeth ychwanegol yn eich amser eich hun bob wythnos.

Mae'r cwrs hwn yn alwedigaethol ac ymarferol a byddwch yn datblygu'r sgiliau cyfathrebu, sgiliau TG a dealltwriaeth o'r amgylchedd busnes sydd eu hangen i weithio mewn swyddi cyfrifyddu iau ac ar lefel mynediad. Bydd yn rhoi sylfaen gadarn ichi o weinyddiaeth ariannol, yn ymdrin â meysydd, o gadw cyfrifon cofnod dwbl i egwyddorion sylfaenol costiad a defnyddio meddalwedd cyfrifyddu.

Mae'r cwrs hwn yn ymdrin â phum uned:

Trafodion Cadw Cyfrifon
Rheolyddion Cadw Cyfrifon
Gweithio'n Effeithiol mewn Cyllid
Elfen o Gostiad
Defnyddio Meddalwedd Cyfrifeg

Caiff bob uned ei asesu drwy asesiadau ymarferol ar gyfrifiadur (CBA) sydd wedi'u dylunio i adlewyrchu tasgau bywyd go iawn.

Wedi ichi gwblhau Tystysgrif Sylfaen AAT mewn Cyfrifeg (Lefel 2), gallwch fynd ymlaen i Ddiploma Uwch Lefel 3 mewn Cyfrifeg ac yna i Ddiploma Proffesiynol Cyfrifeg Lefel 4 AAT. Gall y rhain eich esgusodi chi rhag arholiadau sylfaenol cyrff Cyfrifeg Siartredig y DU (ACCA, CIMA, CIPFA, ICAEW); fel arall, gallech astudio Gradd Sylfaen mewn Busnes neu am Radd Gyflawn.

Gofynion Mynediad

Os oes gennych unrhyw brofiad cyfrifeg neu ariannol blaenorol, gallwch sefyll gwiriad sgiliau ar-lein yn

www.aatskillcheck.org/ i'ch helpu chi benderfynu a ddylech ddechrau Tystysgrif Lefel 2 neu Ddiploma Lefel 3. Os ydych yn teimlo y dylech ddechrau ar Lefel 3, cewch gyfweiliad asesu i sicrhau eich bod ar y lefel astudio gywir.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)





TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Gwybodaeth Ychwanegol

I astudio'r cymhwyster hwn, bydd angen ichi ymuno â'r AAT fel aelod myfyriwr, sydd ar hyn o bryd yn costio oddeutu £140.00. Codir tâl ychwanegol o oddeutu £95.00 am ddeunyddiau'r cwrs. Mae'r holl gostau'n cael eu hadolygu a gallant newid.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

